THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

# Symposiwm Cymdeithas Ddysgedig Cymru yng Nghaergrawnt

# **Moeseg Ffyniant Cynaliadwy i Bawb**



# Rhagair y Llywydd

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru, sef academi genedlaethol y wlad, yn bodoli er mwyn hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod ac er mwyn cydnabod y dalent sy'n gysylltiedig â Chymru. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi cynnull cynadleddau ar faterion allweddol. Aeth ein Symposiwm yng Nghaergrawnt i'r afael â rhai o'r heriau hanfodol sy'n wynebu'r gymdeithas a llywodraethau yn fyd-eang. Mae'r rhain yn gyd-gysylltiedig ac yn gymhleth ac mae gennym ddyletswydd i genedlaethau'r dyfodol i sicrhau ymatebion cynaliadwy. Gobeithiwn y bydd trafodion y Symposiwm, sydd yn taflu goleuni ar ffactorau pwysig, yn gymorth i lunwyr polisi. Mae'r Gymdeithas yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd ac a gymerodd ran yn y Symposiwm.

Syr Emyr Jones Parry
Llywydd, Cymdeithas Ddysgedig Cymru



# Rhagair yr Is-lywydd

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn hwyluso trafodaethau o'r ansawdd uchaf ar faterion o bryder rhyngwladol, gyda safbwynt Cymreig yn ychwanegu gwerth at y trafodaethau. Nod y Symposiwm, a gynhaliwyd yng Ngholeg Madlen Caergrawnt – ac a drefnwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru gyda chymorth yr Academi Brydeinig – oedd dod ag academyddion, swyddogion llywodraeth, cyrff anllywodraethol ac ymarferwyr â diddordeb mewn arferion cyfranogol ynghyd er mwyn ymdrin â phroblemau tlodi rhyngwladol, newid yn yr hinsawdd, diogelwch iechyd, a ffyniant i genedlaethau'r dyfodol. Mynegwyd safbwyntiau nad ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Gymdeithas Ddysgedig neu'r Academi Brydeinig, ond adlewyrchant bryderon y cyfranogwyr a'r rheini a gynrychiolir ganddynt a'u dymuniad angerddol i godi proffil trychinebau sy'n ein bygwth, a chynnig rhybuddion amserol ac atebion ymarferol y gellir eu mabwysiadu gan yr ystod lawn o weithredwyr rhyngwladol wrth ystyried gweddau a chyfrifoldebau moesegol eu gweithgareddau. Amcangyfrifir pe bai pawb drwy'r byd yn mwynhau'r un safon byw â'r Gorllewin, y byddai angen pum Daear i'w chynnal. Mae'r syniadau a gyflwynir yma'n cyfrannu at wahanol ffyrdd o feddwl am ffyniant, ac arferion cyfranogol amgen sy'n cyfrannu at ffyrdd posibl ymlaen i ganfod atebion i broblemau anghydraddoldeb dybryd byd-eang.

Hoffem ddiolch i'r Academi Brydeinig; Prifysgol Caerdydd; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Prifysgol Johannesburg; a Phrifysgol Sydney am eu nawdd hael, ac i'r Pwyllgor Llywio, dan gadeiryddiaeth Is-lywydd y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, am gynnig a gweithredu eu syniadau a roes fod i'r paneli y gorffwysai eu hundod ar y cysyniad o 'Foeseg Ffyniant Cynaliadadwy i Bawb'. Cyfrannodd Janice Gillian, gyda chefnogaeth Sarah Morse a Martin Pollard, yn sylweddol at lwyddiant y digwyddiad.

Yr Athro David Boucher FLSW
Is-lywydd (Y Celfyddydau, Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol),
Cymdeithas Ddysgedig Cymru





Parc Cenedlaethol Eryri, Gogledd Cymru



Cyfranogwyr yn y Symposiwm, 11-13 Medi 2018, Coleg Magdalene, Caergrawnt.




Jane Davidson, un o benseiri Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Cyflwyniad

Yn ystod y flwyddyn yn dilyn canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, pan fyddwn ni'n edrych yn ôl ar y cyfraniad mae Cymru wedi'i wneud i heddwch a chyfiawnder rhyngwladol dros y ganrif ddiwethaf, mae'n amserol hefyd i ni edrych ymlaen at y rôl y gall Cymru ei chwarae i ymdrin â heriau newid amgylcheddol a'r anghydraddoldebau cynyddol sy'n wynebu ein canrif newydd.

Gyda chyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan Gymru bellach lwyfan newydd a neilltuol y gall cymdeithas sifil a sefydliadau cyhoeddus y wlad adeiladu arno i gyfrannu at agenda byd-eang y Cenhedloedd Unedig (CU) i greu gwell dyfodol i bobl ac i'r blaned. Drwy ein gwaith yng Nghymru a chyda phartneriaid, mae gennym gyfle gwirioneddol i wella dealltwriaeth a llywio datblygiad Nodau Cynaliadwy y CU.

I ystyried y cyfle hwn, cynullodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru Symposiwm tri diwrnod i wahoddedigion yng Ngholeg Madlen, Caergrawnt ar 11-13 Medi 2018, a ddaeth â meddylwyr ac ymarferwyr blaenllaw o Gymru a'r byd ynghyd i drafod thema moeseg ffyniant cynaliadwy i bawb. Mae'r papur hwn yn myfyrio ar y trafodaethau hynny, natur yr heriau a wynebwn, y newidiadau sydd angen ymdrin â hwy, a'r rôl y gallai Cymru ei chwarae yn hyn oll.

# Her Ffyniant Cynaliadwy i Bawb



*Dr Rowan Williams, Meistr Coleg Magdalene, Caergrawnt, Dr Helen Taylor, yr Athro Lawrence Hamilton a'r Athro David Boucher yn amlinellu ystyriaethau moesegol ffyniant cynaliadwy i bawb*

Mae'r byd yn wynebu heriau byd-eang a lleol mawr iawn wrth gyflawni uchelgais ffyniant cynaliadwy i bawb. Mae llawer o'r heriau hyn yn ymwneud ag anghydraddoldeb mewn grym, â rhywedd a hîl, ac â hanes hir a pharhaus o fudr-elwa trefedigaethol ac ôl-drefedigaethol ar bobl ac adnoddau naturiol.

Mae rhagdybiaeth yr ugeinfed ganrif bod modd mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn drwy ehangu systemau treulio a chynhyrchu'r 'Gogledd global' i fwy o bobl ac ar draws y blaned bellach yn arwain yn yr 21ain ganrif at gynyddu'r anghydraddoldeb o ran cyfoeth, tarfu ar ecosystemau a cholli prosesau bioamrywiaeth, ochr yn ochr â phryderon cynyddol ynghylch chwalu ffiniau bioffisegol y blaned. Mae'r gorgynhyrchu a'r gorddefnyddio hwn yn sbarduno argyfwng amgylcheddol sy'n bygwth ein bodolaeth. Teimlir effeithiau uniongyrchol hyn fwyaf oll gan bobl dlawd ac ymylol.

Yn ddiweddar, enwyd y cyfnod rydym ni'n byw ynddo yn 'Anthropogenaidd' ar y sail fod gan y ddynoliaeth rôl flaenllaw yn dylanwadu ar systemau planedol o ran hinsawdd ac ecoleg. Eto i gyd rydym fel pe baem ni, yn gyfunol ac yn wleidyddol, yn methu â chymryd camau ystyrlon i ymdrin â'r heriau byd-eang yng nghanol pwysau gwleidyddiaeth genedlaethol tymor byr. Yn aml, ymddangosa'r ymrwymiad angenrheidiol i lesiant pobl eraill a chenedlaethau'r dyfodol yn wan iawn.

Yn **amgylcheddol**, mae gweithredoedd y ddynoliaeth yn achosi dirywiad difrifol yn adnodau naturiol y byd sy'n fygythiad uniongyrchol i

hyfywdra'r Ddaear. Mae hyn yn cynnwys bygythiad difrifol newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i ddefnydd ynni, digoedwigo yn sgil ailddyrannu defnydd tir, ac allyriadau diwydiannol ac amgylcheddol; y bygythiad i ddileu pob math o fioamrywiaeth yn sgil colli neu ddifrodi cynefinoedd ac ecosystemau traddodiadol; gwastraff nad oes modd i'r ecosystem ei amsugno; a galwadau gormodol am ddŵr. Mae'r effeithiau hyn eisoes yn cael eu teimlo gan y rheini sy'n lleiaf abl i ymdopi o fewn cymdeithas ac ar draws cenhedloedd.

O ran **cyfiawnder, mae ein systemau economaidd** a chymdeithasol yn creu gwahaniaethau enfawr o ran cyfoeth a grym ac sydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gan un y cant o bobl bellach yr un faint o gyfoeth â chyfanswm gweddill poblogaeth y blaned. Mae gallu pobl i ddefnyddio asedau a chyfleusterau sylfaenol bywyd yn parhau i fod yn anwastad iawn. Pe bai'r holl fyd yn anelu at dreulio cymaint â'r Unol Daleithiau, er enghraifft, byddai angen pum Daear i'w gynnal.

Mae ein **cyfundrefn wleidyddol ac economaidd** wedi ei seilio ar ddull o'r 19eg o ddefnyddio ynni yn helaeth i gynnal twf a chystadleuaeth ddibynnol ar dreulio a datblygu sydd bellach wedi mynd yn safon fyd-eang a'i wreiddiau mewn sefydliadau rhyngwladol a rheoleiddio ariannol. Mae hyn yn sbarduno defnydd cynyddol o'n hadnoddau naturiol ar gyfer elw ariannol tymor byr heb fawr o ystyriaeth i effeithiau ehangach tymor hir. Mae yna gyndynrwydd i herio mater sylfaenol y patrwm o dwf sy'n sylfaen i'n gwleidyddiaeth, a chanolbwyntir yn hytrach ar foddion technolegol a chyllidol.

**Mae gwleidyddiaeth boblyddol** fyd-eang yn codi bygythiad yr 'arall' – y mewnfudwr neu'r estronwr. Mae'r wleidyddiaeth hon yn gwadu effaith ddofn polisïau cenedlaethol yng Ngogledd y blaned ar fywydau a llesiant pobl y De; ar amgylchedd y blaned, ac ar sefydlogrwydd rhyngwladol. Mae'n gwrthwynebu cydweithio rhyngwladol ac yn mabwysiadu safbwynt ynysig, gan honni ein bod yn gallu cuddio'r tu ôl i ffiniau cenedlaethol ac ymgysylltu â phobl eraill mewn llefydd a ffyrdd sy'n gwasanaethu buddion cenedlaethol uniongyrchol a chul yn unig.

Mae **sefydliadau cymdeithas sifil** ar lefelau byd-eang, rhanbarthol a chenedlaethol, a allai feithrin trafodaethau am achosion ac effeithiau cydraddoldeb a'r amgylchedd a darparu tystiolaeth dros weithredu, yn ymddangos yn fregus. Nid oes lle bob amser i fyfyrio ar yr ystyriaethau byd-eang hyn, ac i raddau helaeth, cânt eu cadw allan o'r drafodaeth gyhoeddus uniongyrchol.

Mae **Gogledd a De'r blaned** ymhell oddi wrth ei gilydd. Ceir diffyg dealltwriaeth yn y Gogledd o'r modd mae'r De yn gweld y byd a phrin yw'r gwerthfawrogiad o'r wybodaeth y gallai'r De ei gyfrannu at yr heriau hyn. Yn rhy aml rydym ni'n parhau i ymddwyn yn y Gogledd fel pe baem yn gwybod yn well ac y dylai pobl eraill wrando. Mae'r agwedd hon yn atgyfnerthu traddodiad trefedigaethol ac yn gwanhau ymddiriedaeth.



*Yr Athro Chris Landsburg, Prifysgol Johannesburg, yn siarad am yr anghydraddoldebau rhwng y Gogledd a'r De global*

# Beth yw ystyr ffyniant cynaliadwy i bawb?

## Dechreuodd y Symposiwm drwy egluro sut y gallem ni ddiffinio ffyniant cynaliadwy i bawb.



*Arweinyddiaeth Cynaladwyedd – Jaipur Rugs Foundation www.jaipurruggs.org*

Defnyddir **ffyniant** yn ymwybodol fel term nad yw yn gysylltiedig o reidrwydd nac yn uniongyrchol â lefelau uchel o gyfoeth materol. Nid yw'n gysylltiedig yn benodol chwaith â model twf yr economi. Mae gwreiddiau'r gair Saesneg prosperity i'w gweld yn y term Lladin – *pro spere* – yr hyn rydym ni'n dyheu amdano. Gellir meddwl am y gair fel un sydd â'r modd i sicrhau hunan-barch / hunan-wireddiad – y gallu i wneud ac i fod – i ffynnu.

**Ffyniant cynaliadwy** yw galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus, diogel, gan unioni problemau iechyd y blaned a chynnig dyfodol sydd cystal o leiaf i genedlaethau'r dyfodol er mwyn iddynt allu byw bywydau fydd gystal, os nad gwell.

Mae 'ar gyfer pawb' yn golygu dosbarthu ffyniant yn gyfiawn o ran mynediad teg i adnoddau (disgrifir hyn fel 'cyfiawnder wrth ddosbarthu'), i hunangyflawni (a ddisgrifir fel 'cyfiawnder wrth gyfrannu'), ac i fod â llais yn y gymdeithas (a ddisgrifir fel 'cyfiawnder epistemig'), a gallai hyn olygu ailaddasu hanesyddol (cyfiawnder adferol).

Yn ei grynswth, mae hyn yn cyflwyno her cyfiawnder rhwng ac o fewn cenedlaethau ac mae'n mynd y tu hwnt i ddarparu modd i fodoli yn unig. Yn hytrach, mae'n amcanu at ei gwneud yn bosibl i gymdeithas fodloni ei hunan a mwynhau diogelwch.

## Pam fod hyn yn bwysig?

Yn yr 21ain ganrif gydgysylltiedig, fyd-eang, mae ein llesiant yn gynyddol ryngddibynnol a chydblethedig. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bod ffyniant i'r ychydig yr un peth â dim ffyniant i neb.

Mewn termau pragmatig, mae anghydraddoldebau cynyddol cyfredol wrth wraidd gwrthdaro ac ansefydlogrwydd gwleidyddol byd-eang. Caiff y rhain effaith ar bawb ohonom drwy droseddu, rhyfela a mudo. Mae argyfyngau amgylcheddol hefyd yn bryder cyffredin gan eu bod yn bygwth system cynnal bywyd y blaned.

Yn foesegol, does dim cyfiawnhad clir dros fynediad anghyfartal i ffyniant o ystyried ein dynoliaeth gyffredin. Mae'n anodd rhesymoli a chyfiawnhau'r amrywiadau enfawr yn y cyfleoedd bywyd a disgwyliad oes sy'n deillio o ffawd lleoliad ein geni. Mae angen cydnabod ein dynoliaeth gyffredin a chysylltu ein plwyfoldeb â chyfanfydedd, gan weld y dieithryn fel cymydog yn hytrach na bygythiad.



*Yr Athro Ash Amin, Ysgrifennydd Tramor, yr Academi Brydeinig*

## Beth sydd angen i ni ei wneud?

Roedd trafodaethau'r Symposiwm yn cynnig bod angen seilio ffyniant i bawb ar ailgysylltu pobl gyda phobl a phobl gyda natur. Heb hyn, rydym ni'n colli golwg ar ein dynoliaeth gyffredin a'r ffaith ein bod hefyd yn rhan o natur ac yn dibynnu ar natur. Mae trefn bywyd modern wedi'n datgysylltu ni o effeithiau ein gweithredoedd, o'n gilydd ac o'r amgylchedd naturiol rydym ni'n dibynnu arno.


Thema oedd yn ailymddangos yn rheolaidd yn y symposiwm oedd yr angen i herio iaith, gwerthoedd ac arferion normadol cyfredol, sydd wedi creu'r argyfwng cynaladwyedd hwn. Rhaid peidio â gweld dinistrio'r amgylchedd fel pris 'cynnydd' ac mae angen ailedrych ar ein syniadau am dwf i greu ffyniant cynaliadwy. Cafwyd galwad am naratifau newydd sy'n blaenoriaethu masnach foesegol a gwaith a bywyd boddhaus. Mae angen meithrin ffyrdd ehangach o ddeall y byd na thrwy gulni'r sbectol economaidd sy'n arglwyddiaethu, gan gofleidio elfennau artistig ac emosiynol ac nid elfennau technegol ac arbenigol yn unig. Rhaid i ni hefyd ailfeddwl rôl busnes, gan ganolbwyntio ar werth cyhoeddus a chyfraniadau cymdeithasol cadarnhaol. Roedd potensial ar gyfer gweithredu corfforaethol cadarnhaol ac ailgysylltu busnes gyda'r lleoedd a'r bobl y mae'n effeithio arnynt.

Elfen arall oedd yn codi'n rheolaidd yn y symposiwm oedd yr angen am ddemocratiaeth gyfranogol effeithiol – sef cynnwys pobl yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae hyn yn golygu democratiaeth sy'n cysylltu â'r bobl heb lais sydd ar yr ymylon, sy'n parchu eu gwybodaeth a'u profiad ac yn rhoi cyfrwng iddynt – gwir boblyddiaeth. Nid yw'n hawdd cyflawni hyn: dangosodd ymchwil i ganlyniadau ceisio meithrin llywodraethu cyfranogol yn rhyngwladol y rhwystrau a godir gan rym, adnoddau ac ymddygiad sefydliadau arbenigol a oedd yn fynych yn milwrio yn erbyn y nod. Felly mae angen i ymagweddau cyfranogol gael cefnogaeth parth dinesig cryf sy'n hyrwyddo dialog a gofod i adfyfyrio, ynghyd â sefydliadau hyderus sy'n hyrwyddo ymgysylltu. Gall cyfranogi hefyd dynnu ar rym y dimensiwn lleol ac ymlyniad â lle i i fwstro pobl a'u cysylltu â materion, gan dynnu ar draddodiadau o weithredu leol.



*Yr Athro Mererid Hopwood a Dr Rowan Williams yn llofnodi Llyfr Gwyn Heddwch*

"Gan mai problemau'r blaned yw'r bygythiad mwyaf i iechyd, mae achos cryf dros symud pwyslais gofal iechyd o drefn trin salwch i un sy'n cofleidio iechyd y blaned fel yr elfen bwysicaf sy'n effeithio ar iechyd."



● *Llun gan Denis Belitsky - Shutterstock*

# Beth yw'r goblygiadau ar gyfer addysg ac iechyd?



O ystyried gwaith UNESCO, ceir achos cryf dros ailfeddwl diben addysg, gan symud i ffwrdd o iwtilitariaeth economaidd ac addysgu cul sydd wedi'i gynllunio'n unig i baratoi pobl ar gyfer yr economi gyfredol. Yn lle hynny mae angen i ni baratoi pobl i fod yn ddinasyddion byd-eang cyfrifol, gyda ffocws ar gydlyniad, empathi a chysylltedd materion â'i gilydd, gan ymgysylltu â bywyd yn ei holl gymhlethdod. Mae hyn yn berthasol i'r obsesiwn presennol â thablau rheng ar gyfer arholiadau. Bu'r symposiwm yn trafod yr effaith negyddol ar fyfyrwyr yn sgil esgyniad De Korea yng nghynghrair PISA, enghreifftiau pwerus o waith allgymorth addysgol, a chonsensws tymor hir Canada ar addysg sydd wedi atal pendilio rhwng modelau economaidd iwtilitaraidd a dinasyddiaeth.

O ran iechyd, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar iechyd y blaned. Gan mai problemau'r blaned yw'r bygythiad mwyaf i iechyd, mae achos cryf dros symud pwyslais gofal iechyd o drefn trin salwch i un sy'n cofleidio iechyd y blaned fel yr elfen bwysicaf sy'n effeithio ar iechyd. Mae'r agenda Un Iechyd hwn yn mynd ag iechyd yn ôl at ei wreiddiau Hippocratig, sef 'yn gyntaf, na wnewch niwed' – *primum non nocere.* Fodd bynnag yn lle cofleidio iechyd y blaned rydym ni'n gweld gwaranteiddio (securitisation) gwleidyddol cynyddol ar iechyd, gan filitareiddio'r ymateb i glefydau nad ydynt yn ymdrin â'r ffactorau economaidd a chymdeithasol sylfaenol ac sy'n symud adnoddau i ffwrdd oddi wrth faterion cronig i ymdrin â'r bygythiad uniongyrchol. Bu farw mwy o fenywod o ddiffyg gofal amenedigol yn Sierra Leone nag a fu farw o ganlyniad i Ebola yn 2014-16.

## Beth gall Cymru ei gyfrannu?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymgais unigryw drwy'r byd i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer llywodraethu cynaladwyedd. Wrth nodi ei saith nod a phum ffordd o weithio, mae'r Ddeddf yn gofyn yr holl gwestiynau cywir i ni... ond mae angen nawr i ni weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i'r atebion i'r cwestiynau hynny.

Yn y cyfnod cynnar hwn o weithredu'r Ddeddf, mae cyfle i feddwl o'r newydd. Mae angen i gymdeithas sifil, gwleidyddiaeth a gweision cyhoeddus fywiogi, cefnogi ac archwilio'r cyfnod hwn er mwyn sicrhau nad yw'n troi'n ddim mwy na phroses ac yn ymarfer ticio blychau.


Sefydlwyd y Ddeddf yn yr ymarfer ymgysylltu cyhoeddus *Y Gymru a Garem*. Yng Nghymru, roedd y symposiwm yn teimlo bod angen i ni nawr adfywio'r dialog hwn i baratoi gweithredu ac amcanion clir yn y cyhoedd ehangach a pheidio â gadael y dasg i gyrff cyhoeddus yn unig, ac y gallai'r ymarfer gynnig patrwm byd-eang ar gyfer dialog cyfranogol a ffurfio polisi.

Mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle i arbrofi. Mae hyn yn golygu arbrofi mewn lleoedd, drwy gefnogi gweithredu cymunedol a thrwy wella cynllunio llesiant i gysylltu gwahanol heriau ffyniant cynaliadwy a dod o hyd i atebion sy'n berthnasol yn lleol. Mae cariad Cymru at le – bro, cynefin, milltir sgwâr, hiraeth – fel gwlad o gymunedau bach yn gosod sail gref i ni. Gallwn hefyd dynnu ar wydnwch cymunedau mewn ardaloedd o Gymru sydd wedi'u dad-ddiwydiannu, a gynhaliodd draddodiadau cydweithio mewn iechyd, diwylliant a lles drwy gyfnodau o galedi economaidd ac ymylu gwleidyddol. Ac mae'n golygu arbrofi mewn meysydd pwnc – ail-ddychmygu ymagweddau at iechyd, yr amgylchedd, addysg a'r economi. Drwy hyn gallwn greu straeon newydd o gyd-ffyniant a llesiant a cheisio sicrhau llais i bawb yn y gymdeithas.

Mae dwyieithrwydd Cymru'n cynnig golwg ar wahanol ddealltwriaethau o'r byd. Ceir geiriau sy'n mynegi ystyron gwahanol i'r hyn sy'n lled-gyfateb yn Saesneg, fel adnabod (to know someone – 'acknowledge'), dysgu (to teach and to learn), tangnefedd (peace between people) a Cymru (our shared land).


Gyda'r gwaith a wnaed drwy raglen 'Cymru Africa' ac aelodaeth Cymru o grwpiau rhyngwladol ar gynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd, mae gan Gymru gyfle i ymgymryd â rôl lysgenhadol, gan osod enghraifft ryngwladol o gyd-ddysgu, cerdded y ffin rhwng De a Gogledd y blaned, a nodi a chywilyddio enghreifftiau o drin pobl o lefydd, gwledydd, crefyddau a thraddodiadau gwahanol fel pe baent yn fodau 'eraill'.

Mae gan Gymru fusnesau hefyd sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn greadigol gyda'r agenda byd-eang. Mae angen i fusnesau fod yn rhan o'r ateb a gallwn ymgysylltu â'r bobl niferus yng Nghymru sy'n dymuno bod ag amcanion moesegol a dod o hyd i ddulliau newydd o fasnachu a mathau o broffidioldeb.




Rita Singh o'r Corff Anllywodraethol Maint Cymru

# Nodau llesiant




Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
Sut y byddwn yn cyflawni



Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

# Sut gall y byd academaidd yng Nghymru gyfrannu?



*Cynrychiolwyr yn y derbyniad, Coleg Magdalene*

Mae angen ffyrdd newydd o fesur cynnydd ffyniant cynaliadwy i bawb. Yn ysbryd ein deddfwriaeth llesiant, mae angen i'r rhain gysylltu'r gwahanol agweddau ar lesiant yn hytrach na pharhau i wahanu nodau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae angen meddwl am ffyrdd newydd o fesur a gwerthuso.

Unwaith eto, yn ysbryd y Ddeddf, mae angen i'r byd academaidd symud i ffwrdd o'i seilos disgyblaethol ac ymgymryd â gwaith rhyngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol, gyda'r olaf yn dod â gwahanol fathau o ddealltwriaethau academaidd a chymdeithas sifil at ei gilydd. Cydnabuwyd hyn, er enghraifft, gan Gymdeithas Iechyd y Byd yn ystod pandemig Ebola yn 2015, lle defnyddiwyd nid yn unig arbenigedd meddygol, ond hefyd gwybodaeth hanesyddol ac anthropolegol wrth ymateb i'r argyfwng. Mae angen i ni gael gwyddoniaeth sylfaenol a gwybodaeth gymwysedig sy'n mynd i'r afael â heriau ymhob agwedd ac sy'n ymgysylltu â chymunedau er mwyn i ni osgoi byd academaidd oeraidd sy'n ystyried materion haniaethol o safbwynt cul.

Mae angen i ni ymgysylltu â chymunedau, yng Nghymru ac yn ehangach, fel partneriaid wrth fframio ein cwestiynau ymchwil a datblygu methodolegau i fynd i'r afael â hwy. Mae ymwybyddiaeth o hanes astrus echdynnu gwybodaeth ac adnoddau mewn tiriogaethau trefedigaethol yn Ne'r blaned, a rôl academyddion yn y broses hon, yn bwysig. Rhaid i gydsyniad a rhannu buddiannau fod yn werthoedd craidd lle bynnag y byddwn ni'n gweithio.

Gall y byd academaidd osod esiampl gref gyda'i ymagwedd ei hun at ymchwil a moeseg ymchwil. Dylai ymchwil wneud cyfraniad cadarnhaol i'w bynciau uniongyrchol yn hytrach na thynnu gwybodaeth ar gyfer cyhoeddi yn unig. Dylai drin gwybodaeth leol a brodorol gyda pharch, gan gydgynhyrchu gwybodaeth newydd gyda chymunedau yn hytrach na gosod barn 'arbenigol'.

Yn bennaf oll, efallai, drwy ymgysylltu â thrafodaethau cymdeithas sifil ehangach, a darparu llwyfan iddynt, fel y dangoswyd yn Symposiwm Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gall y byd academaidd gyfrannu at ei genhadaeth ddinesig a dangos ei werth cyhoeddus. Mae'r byd academaidd mewn sefyllfa gref i ffurfio cysylltiadau rhwng Gogledd a De'r blaned a rhwng safbwyntiau rhyngwladol gwahanol. Mae angen i ni weithio i ddarparu'r llwyfannau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol angenrheidiol ar gyfer trafod a gweithredu os ydym ni am gyflawni ffyniant cynaliadwy i bawb.

*Grŵp Llywio Trefnu: David Boucher (Cadeirydd), Barry Morgan, Susan Baker, Marie Brousseau-Navarro, John Morgan, Matthew Quinn, Peter Sutch, John Wyn Owen, John Harrington, Tim O'Riordan.*



*Rapporteur: Matthew Quinn*

# Ein noddwyr

The British Academy

The University of Sydney

University of Wales / Prifysgol Cymru

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David

University of Johannesburg

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

Elusen Cofrestredig Rhif: 1168622
www.learnedsociety.wales
(+44) 029 2037 6976
lsw@wales.ac.uk

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL